| |
|---|
| **Pwyllgor: Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad y cyfarfod: 20 Hydref 2011** |
| **Swyddog Arweinol Perthnasol: Richard Parry Jones** |
| **Comisiynwyr Perthnasol: Byron Davies** |

# Teitl yr Adroddiad: Ein Cyngor, Eich Cyfraniad – Siapio Blaenoriaethau Corfforaethol 2012 - 2015

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Mae Ynys Môn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar ei ganlyniadau strategol a'i strategaeth ariannol am y tair blynedd nesaf. Mae'r ddogfen hon yn ffurfio rhan o'r ymgynghoriad ac, yn ogystal, cynhelir cyfres o gyfarfodydd gyda chydranddeiliaid a digwyddiadau ar gyfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd ar draws yr Ynys yn ystod mis Medi a mis Hydref 2011.

**2.0 Materion ar gyfer Sgriwtini**

2.1 Mae sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini yn hanfodol bwysig inni fedru llunio cynllun cynhwysfawr i'r dyfodol – unwaith y byddwn yn cytuno ar y deilliannau priodol, bydd hyn yn rhoi sylfaen inni lunio rhaglen waith am y tair blynedd nesa' a bydd yn cael ei ddefnyddio i yrru perfformiad drwy'r gorfforaeth.

3.0 **Cefndir**

3.1 Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf ar yr Ynys gydag oddeutu 3,000 o staff a throsiant blynyddol o tua £200m. Fel un sy'n darparu gwasanaethau allweddol, mae ganddo rôl bwysig o ran darparu'r gwasanaethau gorau posibl i ddinasyddion a chymunedau Ynys Môn.

3.2 Mae yna heriau pwysig o'n blaenau, nid yn lleiaf yr her o bennu ein blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a nodi meysydd gwella tra'n darparu gwasanaethau cyson i ddinasyddion a chymunedau Môn. Bydd cyllid cyhoeddus sydd yn gostwng yn ogystal â newidiadau cymdeithasol a

demograffig dros y blynyddoedd i ddod yn effeithio ar sut y byddwn yn rheoli'r modd y darperir ein gwasanaethau.

3.3 Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Cyngor wedi bod yn destun ymyrraeth gan y Llywodraeth oherwydd problemau mewn perthynas â'r modd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg a'r angen i ganolbwyntio mwy ar osod cyfeiriad strategol i'r sefydliad. Canlyniad yr ail Archwiliad Llywodraethu Corfforaethol y flwyddyn hon oedd i Gomisiynwyr gael eu penodi gan Lywodraeth Cymru i redeg y Cyngor ac o ganlyniad, mae'n rhaid i ni gynllunio ar gyfer y dyfodol er mwyn gwneud gwelliannau, i flaenoriaethu'n effeithiol ac i gynnal y gwasanaethau hanfodol yr ydym yn eu darparu.

3.4 Mae'r ddogfen hon yn nodi'r canlyniadau newydd arfaethedig y bydd y Cyngor yn gweithio tuag atynt ac yn rhoi sylw i'r strategaeth ariannol drafft tymor canolog ar gyfer 2012/15.

3.5 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd amcanion allweddol y Cyngor yn seiliedig ar welliant ac yn canolbwyntio'n benodol ar ei flaenoriaethau strategol, sef:

3.5.1 Ddiogelu a datblygu economi'r Ynys

3.5.2 Adeiladu a chefnogi cymunedau cynaliadwy

3.5.3 Hyrwyddo cymunedau iach, diogel a theg

3.5.4 Rhedeg gwasanaethau effeithlon a fforddiadwy

3.5.5 Codi proffil cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y Cyngor a'r Ynys.

3.6 Gyda'r Awdurdod yn wynebu heriau newydd o nifer o gyfeiriadau, rydym yn teimlo mai dyma'r amser i adolygu'r blaenoriaethau hyn a gosod canlyniadau newydd y gellir eu mesur a fydd yn adlewyrchu'r amgylchiadau sy'n newid yn gyson a'r heriau ar lefel leol a chenedlaethol.

3.7 Felly, rydym eisiau clywed eich sylwadau wrth i ni gynllunio ar gyfer Cynllun Busnes Corfforaethol 2012/15.

3.8 Materion i'w hystyried:

3.8.1 **Yr heriau cymdeithasol / economaidd cyfredol a chyfleoedd sy'n wynebu'r Ynys**

3.8.1.1 Mae gwybodaeth ar lefelau amddifadedd a chyflwr cyffredinol yr economi ar Ynys Môn yn peintio darlun tywyll iawn. Gan Ynys Môn y mae'r GVA (gwerth ychwanegol gros y pen) isaf yn y DU gyfan. Fe gollwyd nifer sylweddol o swyddi dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae lefel diweithdra yng Nghaergybi ymysg yr uchaf yng Nghymru.

3.8.2 **Patrymau poblogaeth a materion ffyrdd o fyw**

3.8.2.1 Mae rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru yn dangos bod gan Fôn boblogaeth sy'n heneiddio. Mae'r rhagamcanion hyn yn golygu mwy o bwysau ar wasanaethau gofal ac iechyd, ar wasanaethau ataliol, ar hyrwyddo ffyrdd o fyw iach yn ogystal ag anghenion pobl fregus ar amser o ansicrwydd economaidd.

3.8.3 **Perfformiad y Cyngor**

3.8.3.1 Yn hanesyddol, mae gwasanaethau'r Cyngor wedi perfformio'n dda. Fodd bynnag, mae rheoleiddwyr wedi nodi bod yna risg y bydd perfformiad yn gwaethygu ac mae arwyddion pendant bod hyn yn digwydd oherwydd nad yw'r materion corfforaethol y dygwyd sylw atynt mewn asesiadau ac adroddiadau blaenorol wed iderbyn sylw effeithiol.

3.8.4 **Y Rhagolygon ariannol**

3.8.4.1 Bydd cyllid gan Lywodraeth Cymru yn gostwng yn fawr mewn blynyddoedd i ddod o gymharu â'r cynnydd mewn chwyddiant a chostau byw. Mae hyn yn golygu heriau enfawr i lywodraeth leol yn gyffredinol ac fe fydd fforddiadwyaeth yn ystyriaeth allweddol o ran cynnal gwasanaethau. Bydd yn rhaid i Gynghorau a sefydliadau sector cyhoeddus eraill roi mwy o bwyslais ar bartneriaethau ac ar yr agenda gydweithredu sy'n cael ei gyrru gan Lywodraeth Cymru.

3.8.4.2 Mae datblygiad ein blaenoriaethau gwaith am y tair blynedd nesaf angen cysidro'r rhagolygon ariannol yma ac o ganlyniad y mae'r tabl isod yn rhoi darlun o'r hyn a ddisgwylir i'n cyllideb refeniw fod am y tair blynedd nesaf. Y mae'n amlygu'r ffaith ein bod yn edrych am arbedion oddeutu

£9miliwn allan o gyllideb refeniw blynyddol o £120miliynau dros y tair mlynedd nesaf.

3.9 Dros yr un cyfnod, disgwylir y bydd arian cyfalaf y sector gyhoeddus yn haneru, gan ychwanegu at y wasgfa ariannol, ac o ganlyniad yn rhoi darlun llwm o'r dyfodol sydd yn pwysleisio'r angen a'r pwysigrwydd o gytuno ar flaenoriaethau'r Cyngor i'r dyfodol.

| | **2012-13 £m** | **2013-14 £m** | **2014-15 £m** |
|---|---|---|---|
| **Y Cyllid sydd ar Gael** | | | |
| Llywodraeth Cymru | 92.7 | 93.7 | 93.7 |
| Y Dreth Gyngor | 26.7 | 28.1 | 29.5 |
| | 119.4 | 121.8 | 123.2 |
| **Cyllideb y Llynedd** | 118.9 | 119.4 | 121.8 |
| Cyllidebau Ysgolion | + 0.6 | + 0.8 | + 0.4 |
| Costau eraill yn codi | + 1.5 | + 2.3 | + 3.0 |
| Newidiadau Demograffig | + 0.2 | + 0.2 | + 0.2 |
| Cyllido Cyfalaf a Llog | - 0.1 | - 0.4 | 0.0 |
| Cyllido benthyca digefnogaeth | + 0.1 | + 0.2 | + 0.4 |
| Adolygiad Tâl a Graddfeydd | + 0.2 | + 0.4 | + 0.4 |
| Buddsoddi mewn newid | + 0.3 | + 0.2 | 0.0 |
| Twf arall | + 1.0 | + 0.7 | + 0.5 |
| Cydbwyso – y toriadau angenrheidiol | - 3.3 | - 2.0 | - 3.5 |
| **Cyllideb** | **119.4** | **121.8** | **123.2** |

3.10 Wrth i ni edrych i'r dyfodol felly - mae eich barn chi'n bwysig i ni fel y gallwn siapio ein gwaith yn unol â'ch blaenoriaethau chi. O ganlyniad, rydym yn cynnig mai ein nod ni fydd

3.10.1 **Hyrwyddo a diogelu buddiannau'r Ynys, ei Dinasyddion a'i Chymunedau trwy gydweithredu yn lleol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang**

3.11 ac drwy geisio cyrraedd ein nod y bydd disgwyl arnom i ddangos canlyniadau yn erbyn 4 deilliant allweddol:

3.11.1 ***Mae gan Ynys Môn economi wledig ffyniannus a llewyrchus***

3.11.1.1 Byddwn ar y blaen o ran ymchwilio i a datblygu ynni a chynhyrchu ynni carbon isel er budd cenedlaethau'r dyfodol.

3.11.1.2 Byddwn yn cefnogi ac yn annog twf busnesau a chyflogaeth

3.11.1.3 Byddwn yn un o'r cyrchfannau y bydd twristiaid yn ymweld â nhw amlaf yng Nghymru

3.11.2 ***Mae pobl Ynys Môn yn cyrraedd eu potensial llawn***

3.11.2.1 Bydd anghenion a dyheadau'n plant a'n pobl ifanc yn cael eu diwallu

3.11.2.2 Byddwn yn cael addysg well ac yn ennill mwy o sgiliau i gwrdd ag anghenion y farchnad lafur

3.11.2.3 Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb

3.11.2.4 Byddwn yn ymfalchïo yn ei hiaith ac yn hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Gymreig sy'n gryf a theg

3.11.3 ***Mae pobl Ynys Môn yn iach ac yn ddiogel***

3.11.3.1 Byddwn yn gwarchod ac yn gwella 'cyfleoedd bywyd' plant ac oedolion bregus yn ein cymdeithas

3.11.3.2 Byddwn yn byw ein bywydau'n ddiogel rhag trosedd, anhrefn a pherygl

3.11.3.3 Byddwn yn sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion tai'r ynys

3.11.3.4 Byddwn yn byw bywydau hirach ac iachach

3.11.4 ***Mae pobl Ynys Môn yn mwynhau, yn gwarchod ac yn gwella eu hamgylchedd adeiledig a'u hamgylchedd naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol***

3.11.4.1 Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ddarparu'r isadeiledd angenrheidiol i gwrdd ag anghenion ein dinasyddion, ein busnesau a'n cymuned.

3.11.4.2 Byddwn yn hyrwyddo, yn gwarchod ac yn gwneud defnydd cynaliadwy o'n hamgylchedd unigryw a naturiol.

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)**
*13 Hydref 2011*

---

**Atodiadau**

**Penderfyniadau perthnasol a wnaed yn flaenorol gan y Cyngor, y Pwyllgor Gwaith neu'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol**
"Dim penderfyniadau perthnasol blaenorol".

**Papurau Cefndir**

Gethin Morgan
Rheolwr Cynllunio Busnes a Rhaglen